## YR ATODLEN

*Rheoliad 4*

Deddfiadau sy'n rhoi Swyddogaethau sy'n Arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol

| **(1) DEDDFIAD** | **(2) CYNNWYS** |
|---|---|
| **Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus 1968 (p.46)** | |
| adran 63(1), (5) a (6) | Darparu ar gyfer hyfforddi swyddogion Byrddau Iechyd Lleol a phersonau eraill a gyflogir neu sy'n arfaethu cael eu cyflogi mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu les. |
| adran 64(1) | Rhoi cymorth ariannol i gyrff gwirfoddol |
| **Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (p.44)** | |
| adran 17 | Darpariaethau mewn cysylltiad â gwahanu cleifion iau oddi wrth gleifion hŷn yn yr ysbyty. |
| **Deddf Iechyd Meddwl 1983 (p.20)** | |
| adran 12(2) | Cymeradwyo ymarferwyr meddygol am fod ganddynt brofiad arbennig mewn gwneud diagnosis o neu drin anhwylder meddyliol. |
| **Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 (p.48)** | |
| adran 48 | Gwneud deunydd hawlfraint sydd ar gael i'r cyhoedd. |
| **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19)** | |
| adran 18 | Pennu symiau dangosol costau cyffuriau a meddyginiaethau. |
| **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43)** | |
| adran 45 | Rhoi a chadw yn eu lle drefniadau at ddibenion monitro ansawdd gofal iechyd a'i wella. |
| adran 47(4) | Cymryd i ystyriaeth y safonau a geir mewn datganiadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. |
| **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42)** | |
| adran 1 | Darparu gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf neu sicrhau eu bod yn cael eu darparu. |
| adran 2 | Darparu gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer cyflawni dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru a gwneud |

| **(1) DEDDFIAD** | **(2) CYNNWYS** |
|---|---|
| | unrhyw beth arall a fwriedir i hwyluso cyflawni'r cyfryw ddyletswyddau. |
| adran 3(1)(a) a (b) | Darparu llety mewn ysbyty a llety arall. |
| adran 3(1)(c) | Darparu gwasanaethau meddygol, deintyddol ac offthalmig, a gwasanaethau nyrsio ac ambiwlans. |
| adran 3(1)(d) | Darparu gwasanaethau neu gyfleusterau ar gyfer gofalu am ferched beichiog, merched sy'n bwydo ar y fron a phlant ifanc. |
| adran 3(1)(e) | Darparu gwasanaethau neu gyfleusterau ar gyfer atal salwch, gofalu am bersonau sy'n dioddef o salwch ac am ôl-ofal personau sydd wedi dioddef o salwch. |
| adran 3(1)(f) | Darparu gwasanaethau neu gyfleusterau eraill y mae eu hangen ar gyfer gwneud diagnosis o salwch a'i drin. |
| adran 4 | Darparu gwasanaethau seiciatryddol tra diogel. |
| adran 5 a pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 1 | Darparu ar gyfer gwneud ymchwiliad meddygol ar ddisgyblion a'u trin. |
| adran 5 a pharagraff 8 o Atodlen 1 | Trefnu ar gyfer rhoi cyngor ar atal cenhedlu, ar gyfer gwneud ymchwiliad meddygol ar bersonau sy'n gofyn am y cyfryw gyngor, ar gyfer trin y cyfryw bersonau ac ar gyfer cyflenwi sylweddau a dyfeisiau atal cenhedlu. |
| adran 5 a pharagraffau 9 a 10 o Atodlen 1 | Darparu cerbydau (gan gynnwys cadeiriau olwyn) ar gyfer personau anabl. |
| adran 5 a pharagraff 12 o Atodlen 1 | Darparu gwasanaeth microbiolegol ar gyfer rheoli lledaeniad clefydau heintus. |
| adran 5 a pharagraff 13 o Atodlen 1 | Cynnal neu gynorthwyo personau, drwy gyfrwng grantiau neu fel arall, i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â salwch neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaeth a ddarperir o dan y Ddeddf. |
| adran 6 | Darparu gwasanaethau y tu allan i Gymru. |
| adran 10(1) a (2) | Trefnu gydag unrhyw berson neu gorff (gan gynnwys corff gwirfoddol) i'r person neu'r corff hwnnw ddarparu neu gynorthwyo i ddarparu unrhyw wasanaeth o dan y Ddeddf. |
| adran 10(3) a (4) | Sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau personau a gyflogir mewn cysylltiad â'r cyfryw gyfleusterau ar gael i bersonau neu gyrff penodol (gan gynnwys cyrff gwirfoddol). |

| (1) DEDDFIAD | (2) CYNNWYS |
|---|---|
| adran 10(5) | Cytuno telerau a thaliadau mewn cysylltiad â threfniadau a wneir o dan adran 10 o'r Ddeddf. |
| adran 14(1) | Cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau meddygol sylfaenol a gwasanaethau deintyddol sylfaenol. |
| adran 15 | Gweinyddu a rheoli gwasanaethau mewn perthynas â gwasanaethau meddygol sylfaenol, gwasanaethau deintyddol sylfaenol, gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwasanaethau fferyllol. |
| adran 17 | Paratoi ac adolygu cynlluniau ar gyfer gwella iechyd pobl y mae'n gyfrifol amdanynt a darparu gofal iechyd ar gyfer y cyfryw bersonau. |
| adran 38(1)—(4) | Cyflenwi nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau eraill i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill a gwneud gwaith cynnal a chadw mewn cysylltiad ag unrhyw dir neu adeilad y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei gynnal. |
| adran 38(5) | Cyflenwi nwyddau, deunyddiau neu gyfleusterau eraill a ragnodir i bersonau sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau deintyddol sylfaenol, gwasanaethau offthalmig cyffredinol neu wasanaethau fferyllol. |
| adran 38(6) | Sicrhau bod unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau eraill ar gael i awdurdodau lleol ynghyd â gwasanaethau personau a gyflogir a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau unrhyw ymarferydd meddygol neu ddeintyddol neu nyrs a gyflogir am resymau ac eithrio i ddarparu gwasanaethau sy'n rhan o'r gwasanaeth iechyd er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd cyhoeddus. |
| adran 38(7) | Sicrhau bod gwasanaethau ymarferwyr ar gael i awdurdodau lleol er mwyn galluogi'r cyfryw awdurdodau i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd cyhoeddus. |
| adran 39(1) a (2) | Darparu ar gyfer ymgynghori cyn sicrhau bod gwasanaethau unrhyw swyddog ar gael i awdurdod lleol. |

| (1)<br>DEDDFIAD | (2)<br>CYNNWYS |
|---|---|
| adran 39(4) a (5) | Cytuno telerau gwasanaethau a chyfleusterau a ddarperir o dan adran 38 o'r Ddeddf a'r ffioedd amdanynt. |
| adran 39(6) | Pŵer pan gyflenwir nwyddau neu ddeunyddiau i'w prynu a'u storio a threfnu ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau gan drydydd partïon. |
| adran 41(1) — (4) | Darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol. |
| adran 42 | Gwneud contractau y darperir gwasanaethau meddygol sylfaenol oddi tanynt. |
| adran 44 | Gwneud contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol gyda phersonau cymwys. |
| adran 50(1)—(5) sylfaenol. | Trefnu ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol |
| adran 51(1) | Gwneud trefniadau gyda phersonau cymwys o dan adran 50. |
| adran 53 | Darparu cymorth a chefnogaeth mewn perthynas â gwasanaethau meddygol sylfaenol. |
| adran 54(1) a (9) | Cydnabod Pwyllgorau Meddygol Lleol a dyrannu symiau o arian i Bwyllgorau. |
| adran 55 | Sicrhau bod llety ar gael i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â gwasanaethau meddygol sylfaenol. |
| adran 56(1)—(4) | Darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol. |
| adran 57 | Gwneud contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol. |
| adran 59 | Gwneud contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol gyda phersonau cymwys. |
| adran 64(1)—(5) | Trefnu ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol. |
| adran 65(1) | Gwneud trefniadau gyda phersonau cymwys o dan adran 64. |
| adran 67(1) a (3) | Swyddogaethau mewn perthynas ag iechyd cyhoeddus deintyddol. |
| adran 68(1) a (2) | Darparu cymorth a chefnogaeth i unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol. |
| adran 69(1) a (9) | Cydnabod Pwyllgorau Deintyddol Lleol a dyrannu symiau o arian i Bwyllgorau. |
| adran 70 | Sicrhau bod llety ar gael i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â gwasanaethau deintyddol sylfaenol. |
| adran 71(1) | Trefnu gwasanaethau offthalmig cyffredinol. |

| **(1) DEDDFIAD** | **(2) CYNNWYS** |
|---|---|
| adran 75 | Pan awdurdodir hynny, gwneud trefniadau eraill mewn perthynas â gwasanaethau offthalmig. |
| adran 78(1), (7), (8) a (9) | Cydnabod Pwyllgorau Optegol Lleol a dyrannu symiau o arian i Bwyllgorau. |
| adran 79 | Sicrhau bod llety ar gael i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol. |
| adran 80 (1), (3) a (6) | Trefnu ar gyfer gwasanaethau fferyllol. |
| adran 82 | Darparu a chyhoeddi manylion trefniadau mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol ychwanegol. |
| adran 87 | Pan awdurdodir hynny, gwneud trefniadau eraill mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol. |
| adran 90(1), (7), (8) a (9) | Cydnabod Pwyllgorau Fferyllol Lleol a dyrannu symiau o arian i Bwyllgorau. |
| adran 91 | Sicrhau bod llety ar gael i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau fferyllol. |
| adran 92 | Sefydlu cynlluniau peilot. |
| adran 93 a pharagraffau 1,2,3,4,5 a 7 o Atodlen 6 | Gwneud cynlluniau peilot. |
| adran 107 | Datgymhwyso ymarferwyr rhag cael eu cynnwys ar restr offthalmig neu fferyllol. |
| adran 108 | Dileu ymarferwyr yn amodol. |
| adran 110(1), (3), (4), (5), (6) ac (8) | Atal ymarferwyr dros dro. |
| adran 111 | Atal ymarferwyr dros dro hyd oni chynhelir apêl. |
| adran 113(1) a (3) | Adolygu penderfyniadau. |
| adran 114(5) a (6) | Gwneud cais am amrywio ymarferwyr ar restri, am eu gorfodi ar restri ac am eu dileu'n amodol oddi ar restri. |
| adran 115(4),(5) a (6) | Gwneud cais am ddatgymhwysiad cenedlaethol. |
| adran 137 | Awdurdodi defnyddio llety mewn ysbytai, penderfynu i ba raddau y mae i fod ar gael a phenderfynu ac adennill ffioedd mewn cysylltiad â defnyddio llety o'r fath. |
| adran 138 | Adennill treuliau sy'n daladwy gan gleifion a gyflogir. |

| **(1)**<br>**DEDDFIAD** | **(2)**<br>**CYNNWYS** |
|---|---|
| adran 159 | Caffael tir neu eiddo arall y mae ei angen at ddibenion y Ddeddf a defnyddio neu gynnal a chadw unrhyw eiddo yn rhinwedd y Ddeddf. |
| adran 163(2)(b) | Bod yn gorff sy'n gyfrifol am ysbyty. |
| adran 166 | Defnyddio unrhyw eiddo a freinir yng Ngweinidogion Cymru. |
| adran 183 | Cynnwys y cyhoedd ac ymgynghori ynghylch cynllunio gwasanaethau a'u rhoi ar waith. |
| adran 197 | Sicrhau bod cyfleusterau ar gael ar gyfer addysgu ac ymchwilio clinigol mewn cysylltiad â meddygaeth neu ddeintyddiaeth glinigol. |
| adran 198 | Sicrhau bod llety neu gyfleusterau gwasanaeth iechyd ar gael at ddiben darparu gwasanaethau meddygol, deintyddol, fferyllol, offthalmig neu drin traed ar gael i gleifion preifat nad ydynt yn gleifion preswyl. |
| adran 200(2), (4), (6), (7), (9) a (10) | Derbyn a chofrestru gwybodaeth mewn perthynas â genedigaethau a marwolaethau. |